

RHIF Y CWMNI: 07612921

**LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

**ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN
YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022**

ELUSEN GOFRESTREDIG: RHIF 1143024

LLŶR JAMES

*Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig Chartered Certified Accountants
Archwilwyr Cofrestredig Registered Auditors*

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

**CYNNWYS O'R CYFRIFON ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022**

CYNNWYS

TUDALEN

Rhestr o Wybodaeth	1
Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr/ Cyfarwyddwyr	2
Adroddiad yr Arolygwr Annibynnol	6
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	7
Mantolen	8
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	9

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

**RHESTR O WYBODAETH
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022**

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Tŷ Llafar
Adeilad 23
Parc Dewi Sant
Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin
SA31 3HB

BANCWYR

HSBC Plc
15 Heol Awst
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3AQ

CYFRIFYDD AC AROLYGWR ANNIBYNNOL

Llŷr James
25 Stryd Y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

CYFARWYDDWYR Y CWMNI / YMDDIRIEDOLWYR

David Sulwyn Thomas – Ymddiswyddwyd 08/02/2022
Rhian Mair Evans
Alison Parsons
Mansel Thomas
Emlyn Schiavone – Apwyntiwyd 09/05/2022

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2022

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni i bwrpas rheolau cyfreithiol cwmnïau) yn cyflwyno'r adroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022.

PRIF WEITHGARWCH

Disgrifir prif weithgarwch y cwmni fel yr isod.

I leddfu'r deillion, neu rannol ddall, neu'r rhai yn dioddef dros dro analluogrwydd neu anabledd parhaol sy'n gwneud darllen yn straen gan ail-godio, cynnal a dosbarthu a llyfrgell llyfrau Cymraeg a sain Eingl-Gymreig.

YMDDIRIEDOLWYR

Dyma'r ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn hon: -

David Sulwyn Thomas (Cadeirydd) Ymddiswyddwyd 08/02/2022
Rhian Mair Evans (Is-gadeirydd)
Alison Parsons
Mansel Thomas
Emlyn Schiavone- Apwyntiwyd 09/05/2022

Mae polisi apwyntio a recriwtio Ymddiriedolwyr yn Adran 31 o'r cyfansoddiad.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Rydym yn gweithio yn agos gyda sefydliadau eraill sydd yn ymwneud â phobl â phroblemau gweld - Cyngor Y Deillion yng Nghymru, cymdeithasau deillion, papurau llafar, yn ogystal â bod mewn cyswllt â RNIB Cymru.

PRIF NOD Y CWMNI YW:

Rydym yn paratoi fersiynau casét a chryno ddisg o lyfrau a gyhoeddir yn Gymraeg, ynghyd â llyfrau Saesneg sydd yn ymwneud â Chymru, ar gyfer deillion a rhai sydd yn cael trafferth i ddarllen print. Gwasanaeth gwirfoddol yw hyn a'r holl deitlau ar gael yn rhad ac am ddim.

Rydym yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith swyddfa - didoli'r post, cysylltu â'r derbynwyr, danfon llythyron apêl a threfnu casgliadau. Bydd gwirfoddolwyr yn darllen y llyfrau a phapurau bro, cyflwyno cylchgrawn yn llawn erthyglau o wahanol gylchgronau a chyflwyno fersiwn sain o'r Radio Times.

FFYNONELLAU A DEFNYDD ARIAN

Mae'r Elusen yn cael ei chyllido yn bennaf, gan rhoddion a gwaith i'r Cyngor Sir, er mwyn ariannu gwasanaeth i Gymru gyfan.

Am y flwyddyn, roedd colled o £20,743 (2021: elw £2,302).

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

AROLWG O DDATBLYGIADAU A'R ARGOELION AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r canlyniadau am y cyfnod yn dangos diffyg yn y cronfeydd o £20,743. Mae'r ymddiriedolwyr yn obeithiol o dderbyn arian digonol i'w galluogi i barhau a'r gweithgareddau.

Adroddiad Blynyddol 2021- 2022

Mae'r elusen bwysig yma yn parhau i recordio a dosbarthu nifer o lyfrau amrywiol dros Cymru i unigolion gydag anghenion gweld neu sydd yn ddall.

Yn ogystal â'r ddau aelod o staff mae 25 o wirfoddolwyr yn rhoi ei amser i recordio llyfrau. Rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw.

Mae'r pwyllgor o ymddiriedolwyr yn cwrdd yn fisol i drafod nifer o faterion ac i gynllunio am y dyfodol. Un o'r blaenoriaethau yw codi arian i sicrhau dyfodol y gwasanaeth cymunedol yma. Mae Covid wedi amharu ar rhai o'r gweithgareddau i godi arian ond mae trefniadau ar y gweill i gywiro hyn fel mae'r sefyllfa y pandemic yn gwella.

Rydym yn edrych mlaen i'r dyfodol gyda meddylfryd positif o godi arian a datblygu y gwasanaeth i pobl Cymru.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion Deddf Cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig.

Yn ôl cyfraith cwmnïau mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen a gwarged neu ddifffyg yr elusen yn ystod y flwyddyn honno. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr: -

- 1) Ddewis polisïau cyfrif addas a'u gweithredu'n gyson;
- 2) Dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer Cymeradwy: Cyfrifo a Chofnodi gan Elusennau;
- 3) Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifol a darbodus;
- 4) Datgan a ydy'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o arferion cymeradwy wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw eithriadau sydd wedi eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;
- 5) Paratoi datganiadau ariannol ar sail y dybiaeth bod yr elusen fusnes fyw oni fernir mai priodol fyddai credu bod yr elusen ar fin dod i ben.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu'n rhesymol o gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac am sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a Deddf Gwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedion yr elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

ASESIAD RISG

Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Comisiynwyr Elusennau y dylai pob elusen baratoi asesiad risg fel mater o arfer da, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried ac adolygu'r peryglon y gallai'r elusen eu hwynebu. Roedd yr adolygiad nid yn unig yn cynnwys risgiau sydd yn gysylltiedig â hwyluso prosiectau neu faterion ieched a diogelwch ond hefyd risgiau ariannol mewn perthynas â dirwyn yr elusen i ben, diswyddiadau, salwch hirdymor neu geisiadau am iawndal gan staff.

Cytunwyd i neilltuo arian o gyllideb gyfredol yr elusen er mwyn ymateb i achosion risg. Yn sgil hynny, mae cyfanswm o £47,885 wedi ei drosglwyddo i gronfeydd penodol.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Paratowyd adroddiad yr ymddiriedolwyr yn unol â'r ddarpariaeth arbennig yn Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sydd yn berthnasol i gwmnïau bychain.

TRWY ORCHYMYN Y BWRDD

Tŷ Llafar
Adeilad 23
Parc Dewi Sant
Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin
SA31 3HB


.....
EMLYN SCHIAVNONE

YMDDIRIEDOLWR/CYFARWYDDWR

DYDDIAD 22/12/2022.....

LLŶR JAMES

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig Chartered Certified Accountants
Archwilwyr Cofrestredig Registered Auditors

25 Stryd y Bont
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3JS

25 Bridge Street
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3JS

ffôn/tel
ffacs/fax
ebost/email
gwefan/website
trydar/twitter

01267 237754
01267 238418
post@llyrjames.co.uk
www.llyrjames.co.uk
@LlyrJamesCyf

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

ADRODDIAD YR AROLYGWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR

Adroddaf i ymddiriedolwyr yr elusen ar fy arolwg annibynnol o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

Fel ymddiriedolwyr yr elusen (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith yn ymwneud a chwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y cwmni ar gyfer y flwyddyn hon a dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael arolwg annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm arolwg annibynnol o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm arolwg annibynnol, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

Rwyf wedi cwblhau fy arolwg annibynnol. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddol eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o arolwg annibynnol; neu
- nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

.....
BETHAN WYN VAUGHAN
CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG

.....
DYDDIEDIG:

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

	Cronfeydd heb gyfyngiadau £	Cronfeydd Penodol £	Cronfeydd a chyfyngiadau £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
INCWM A GWARIANT - ADNODDAU I MEWN					
Rhoddion	14,848	-	-	14,848	11,283
Rhodd Cymorth	-	-	-	-	-
Papur Llafar	2,998	-	-	2,998	4,239
Cymynrodd	-	-	-	-	-
Incwm arall – Grantiau Covid 19	8,789	-	-	8,789	32,862
Adnoddau i mewn - cyfanswm	26,635	-	-	26,635	48,384
ADNODDAU A DDEFNYDDIWD					
Dibrisiant	1,611	-	-	1,611	1,643
	1,611	-	-	1,611	1,643
Costau Cynnal	43,233	-	-	43,233	44,439
Costau Gweithgareddau	2,534	-	-	2,534	-
	45,767	-	-	45,767	44,439
Adnoddau a ddefnyddiwyd- cyfanswm	47,378	-	-	47,378	46,082
Adnoddau net i mewn	(20,743)	-	-	(20,743)	2,302
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	-	-	-	-	-
Symudiad net mewn cronfeydd	(20,743)	-	-	(20,743)	2,302
CRONFEYDD - DYGWYD YMLAEN	39,901	47,885	-	87,786	85,484
CRONFEYDD-CARIWYD YMLAEN	£19,158	£47,885	£ -	£67,043	£87,786

Dangosir y symudiadau yn yr arian wrth gefn yn nodiadau 7 a 8 i'r datganiadau ariannol.

**LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF (RHIF Y CWMNI: 07612921)
(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2022

	Nodyn	£	2022 £	2021 £
ASEDION SEFYDLOG				
Asedion Sylweddol	4		4,156	6,482
ASEDION CYFREDOL				
Stoc		-		2,534
Arian yn y banc ac mewn llaw		63,602		79,754
		-----		-----
		63,602		82,288
		-----		-----
CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	5	715		268
		-----		-----
ASEDION CYFREDOL NET			62,887	82,020
			-----	-----
CYFANSWM ASEDION LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			67,043	88,502
Darpariaeth am ymrwymadau	6	-		(716)
			-----	-----
ASEDION NET			£ 67,043	£ 87,786
			=====	=====
ARIAN WRTH GEFN				
Cronfeydd – heb gyfyngiadau	7		19,158	39,901
Cronfeydd – penodol	8		47,885	47,885
			-----	-----
CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN			£ 67,043	£ 87,786
			=====	=====

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw roedd gan y cwmni'r hawl i gael ei eithrio o dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud a chwmnïau bach. Nid yw unrhyw aelodau wedi mynnu i'r cwmni gael archwiliad ariannol o'i gyfrifon am y flwyddyn dan sylw yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio a gofynion y Ddeddf mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg ac am baratoi cyfrifon.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i'r drefn cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 7 i 13 gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:



EMLYN SCHIAVNONE

YMDDIRIEDOLWR

DYDDIAD

22/12/2022

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Llyfrau Llafar Cymru Cyf yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant heb gyfrannau wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'r swyddfa gofrestredig yn Tŷ Llafar, Adeilad 23, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn punnoedd sterling (£)

2. POLISIÂU CYFRIFO

Sail y Cyfrif

Mae'r cwmni'n paratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail cyfrifo cost hanesyddol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau o Adran 1A "Cwmnïau Bychain" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006.

Paratoi'r cyfrifon ar sail hyfywedd

Paratowyd y cyfrifon hyn ar y rhagdybiaeth y gallai'r cwmni barhau i fasnachu. Nid oes unrhyw fenthyciadau allanol. Credir, felly, fod paratoi'r cyfrifon ar sail masnachu barhaol yn briodol.

Trosiant

Mae'r trosiant yn cynrychioli gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

Gwariant

Mae atebolrwydd pob aelod yn gyfyngedig i uchafswm o £1. Diddymir yr atebolrwydd hwn flwyddyn ar ôl i'r aelodaeth ddarfod.

Asedion Sefydlog A Dibrisiant

Nodir gwerth asedion sefydlog ar y fantolen yn ôl eu cost lai dibrisiant. Diddymir cost asedion sefydlog fesul rhandaliad blynyddol cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig fel a ganlyn:

Celfi ac Offer

15%

Grantiau

Mae grantiau yn cael eu credydu i incwm yn unol â'r flwyddyn y maent yn perthyn iddynt.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Asesiad Risg

Mae'r cwmni wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmparu nid yn unig y sefyllfa ariannol ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r elusen yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r math y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Polisi Arian-Wrth-Gefn

Lluniwyd y polisi arian wrthgefn i sicrhau bod gan yr elusen gyllid digonol i ddelio a'r elfen o risg sydd ynghlwm a rhedeg elusen sydd yn ddibynnol ar dderbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. (Gweler nodyn 6)

3. CYFARWYDDWYR A STAFF

Ar gyfartaledd, rhif y staff yn fisol yn ystod y flwyddyn oedd: 6 (2021 –6)

Roedd costau cronrus cyflogau'r personau hyn fel a ganlyn:-

	2022	2021
	£	£
Cyflogau	33,387	35,457
	-----	-----
	33,387	35,457
	=====	=====

Ni dalwyd cyflog i'r cyfarwyddwyr.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG****NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022****4. ASEDION SEFYDLOG SYLWEDDOL**

	Celfi ac Offer £	Cyfanswm £
COST		
Ar 1.4.21	60,128	60,128
Ychwanegiadau	-	-
	-----	-----
Ar 31.3.22	60,128	60,128
	-----	-----
DIBRISANT		
Ar 1.4.21	53,646	53,646
Tal am y flwyddyn	2,326	2,326
	-----	-----
Ar 31.3.22	55,972	55,972
	-----	-----
GWERTH LLYFR NET		
Ar 31.3.22	£ 4,156	£ 4,156
	=====	=====
Ar 31.3.21	£6,482	£6,482
	=====	=====

Ni awdurdodwyd na chontractiwyd symiau mewn perthynas â gwariant cyfalaf gan y cyfarwyddwyr ar 31^{ain} Mawrth 2022 na chynhwyswyd mohonynt yn y datganiadau ariannol hyn.

5. CREDYDWYR

	2022 £	2021 £
Credydwy'r yswiriant	373	-
Credydwy'r TWE	342	346
	-----	-----
	£ 715	£ 346
	=====	=====

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU) ELUSEN GOFRESTREDIG

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

		2022 £	2021 £	
6.	DARPARIAETH AM YMRWYMIADAU			
a)	GRANT LOTERI			
	Balans ar 1 Ebrill 2021	716	1,917	
	Grant a hawliwyd	(716)	(1,201)	
	Balans ar 31 Mawrth 2022	-	716	
	CYFANSWM	£ -	£ 716	
7.	CRONFEYDD - HEB GYFYNGIADAU			
	Balans a ddygwyd ymlaen	39,901	37,599	
	(Diffyg)/Gwarged am y flwyddyn	(20,743)	2,302	
		£19,158	£39,901	
8.	CRONFEYDD PENODOL			
	Balans a ddygwyd ymlaen	Trosglwyddiadau i Gronfeydd Eraill	Trosglwyddiadau i mewn	Balans 31.3.22
	£	£	£	£
	Costau Craidd (i)	42,885	-	42,885
	Technoleg Newydd (ii)	5,000	-	5,000
	47,885	-	-	47,885

Yn dilyn asesiad o risg, mae'r cwmni wedi sefydlu cronfa benodol:-

- Darpariaeth am gostau craidd i alluogi'r elusen i gwrdd â chostau gweinyddu am gyfnod o 6 mis pe bai lleihad yn y gweithgareddau.
- Darpariaeth am dechnoleg newydd y bydd yr elusen ei angen i ddarparu ei gweithgareddau.

LLYFRAU LLAFAR CYMRU CYF

**(CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT HEB GYFRANNAU)
ELUSEN GOFRESTREDIG**

**NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022**

9. DADANSODDIAD O ASEDION NET RHWNG CRONFEYDD

	Asedion Sylweddol £	Asedion Cyfredol Net £	Cyfanswm £
Cronfeydd Penodol	-	47,885	47,885
Cronfeydd Heb Gyfyngiadau	4,156	15,002	19,158
	<u>4,156</u>	<u>62,887</u>	<u>67,043</u>